# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg



**Tomos**

# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg

## Tomos

### Gwybodaeth Gefndirol

- Roedd Tomos yn un o ddeuddeg disgybl Iesu.
- Mae'r dywediad 'Tomos yr amheuwr' yn rhan o iaith bob dydd. Ei ystyr ydy rhywun sy'n gwrthod credu unrhyw beth heb brawf. Mae'r cymal yn dod o hanes Tomos yn y Beibl oedd, ar y dechrau, yn gwrthod credu fod Iesu wedi atgyfodi.

### Beth Ddigwyddodd

- Ar ôl i Iesu farw a dod yn ôl yn fyw, dangosodd ei hun i'r disgyblion oedd yn cuddio tu ôl i ddrysau clo. Doedd Tomos ddim gyda nhw ar y pryd.
- Pan ddywedodd y lleill wrth Tomos eu bod wedi gweld Iesu, doedd e ddim yn eu credu nhw. Dywedodd Tomos na fyddai yn credu nes iddo weld ôl yr hoelion ar arddyrnau Iesu, a chyffwrdd y briwiau.
- Wythnos yn ddiweddarach dyma Iesu yn ymddangos i'w ddisgyblion eto. "Shalom!" meddai (cyfarchiad sy'n golygu 'heddwch i chi'). Siaradodd gyda Tomos a dweud wrtho am gyffwrdd y briwiau. Ymateb Tomos oedd, "Fy Arglwydd a'm Duw!"
- Dywedodd Iesu, *"Ti wedi dod i gredu am dy fod wedi fy ngweld i. Mae'r rhai fydd yn credu heb weld yn mynd i gael eu bendithio'n fawr."* (Ioan 20:29, beibl.net)

### Diffiniad

- Ffydd: *Ffydd ydy trystio rhywbeth na ellir ei weld neu ei brofi.*

### Beth Allwn ei Ddysgu

- Roedd Tomos yn ei chael hi'n anodd credu fod Iesu wedi atgyfodi nes iddo ei weld â'i lygaid ei hun. Weithiau rhaid i ni weld pethau cyn credu, dro arall rhaid i ni gael ffydd.

### Ystyried

- Wyt ti'n gallu disgrifio rhywbeth nad wyt yn ei weld, ond rwyt yn gwybod ei fod yno am dy fod yn gweld neu yn teimlo'r effaith mae'n ei gael?
- Pam wyt ti'n meddwl fod Tomos yn ei chael hi mor anodd i gredu fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw ar ôl marw?
- Wyt ti'n meddwl ei bod yn deg fod Tomos yn cael ei gofio am ei amheuon? Pam neu pam ddim?